WOMEN'S HEALTH GROUP

bpas British Pregnancy Advisory Service

# COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 12 MEHEFIN 2019

## 12:00 – 13:30, YSTAFELL GYNADLEDDA B, TŶ HYWEL, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Suzy Davies AC, Jenny Rathbone AC, Helen Parfitt yn cynrychioli Helen Mary Jones AC, Fiona Openshaw yn cynrychioli Joyce Watson AC |
| RHANDDEILIAID YN BRESENNOL: | Rachael Clarke (BPAS), Kate Bayliss (Aneurin Bevan), Pauline Brelsford (ARC), Rosemary Cutmore (BPAS), Amanda Davies (Bae Abertawe), Bronwen Davies (ARC), Angela Gorman (ARC), Chris Newman (ARC), Alison Scouller (ARC), Jackie Jones (Cynulliad Merched Cymru), Vivienne Rose (BPAS), Debbie Shaffer (FTWW), Barbara Street (ARC), Suzanna Williams (Cwm Taf) |
| SIARADWYR GWADD: | Zoe Couzens (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Christie Craddock (Iechyd Cyhoeddus Cymru) |
| YMDDIHEURIADAU: | Lesley Blower (ARC), Jane Dickson (Aneurin Bevan), Faye Farthing (Endometriosis UK), Iona Gordon (ARC), Helen Rogers (RCM), Sharon Vine (Cwm Taf) |

## 1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

Agorodd Jenny Rathbone (JR) y cyfarfod, gan wahodd pawb a oedd yn bresennol i gyflwyno'i hun.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 CHWEFROR 2019

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2019 eu cytuno yn amodol ar y cywiriadau a ganlyn:

- Mae angen cywiro'r is-baragraff o dan eitem 4.
- Nid oedd ymddiheuriadau gan Pauline Brelsford (ARC), Iona Gordon (ARC), Angela Gorman (ARC), Helen Rogers (RCM), Barbara Street nac Olwen Williams (Betsi) wedi'u cynnwys yn y cofnodion.

## 3. MATERION YN CODI

**Hunan-atgyfeiriad yng Nghaerdydd.** Dywedodd JR ei bod wedi codi'r mater o hunan-atgyfeirio a chyhoeddi'r rhif ffôn ar gyfer gwasanaethau â'r Bwrdd Iechyd Lleol. Roeddent wedi ymateb i gadarnhau y byddai hyn yn digwydd.

**Hunan-atgyfeiriad yng Ngwm Taf.** Dywedodd Suzanne Williams fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi cyflwyno system hunan-atgyfeirio er mwyn i fenywod beidio â gorfod mynd at feddyg teulu neu

glinig iechyd rhywiol mwyach i gael eu cyfeirio at wasanaeth. Gallai menywod hunan-atgyfeirio at wasanaethau drwy ffonio'r prif rif ffôn ar gyfer gwasanaethau iechyd rhywiol.

**Manylion am Galw Iechyd Cymru.** Roedd RC wedi ceisio diweddaru'r wybodaeth am erthyliadau yn ardaloedd Betsi Cadwaladr a Phowys yn uniongyrchol â gwasanaeth Galw Iechyd Cymru heb lwyddiant. Byddai'n parhau i ofyn i Zoe Couzens am y mater hwn.

**Gwaith ymchwil ar ofal trawsffiniol.** Cyflwynodd Helen Parfitt adroddiad ar ofal trawsffiniol yn Nyffryn Dyfi. Nid oes unrhyw ganllawiau cenedlaethol neu ranbarthol penodol wedi'u cyhoeddi. Lle mae gofal trawsffiniol yn digwydd, y rheswm am hyn fel arfer yw diffyg capasiti mewn un bwrdd iechyd. Nododd fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cyhoeddi canllawiau ar ofal trawsffiniol.

**Llythyr at y Gweinidog Iechyd.** Roedd JR wedi ysgrifennu at Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd, yn nodi materion o'r cyfarfod blaenorol. Cafodd copi o'r llythyr ei ddosbarthu yn y cyfarfod. Roedd JR yn aros am ymateb.

**Newid enw'r grŵp.** Gofynnwyd cwestiynau am newid enw'r grŵp o'r 'Grŵp Trawsbleidiol ar Erthyliad a Dewis Atgenhedlol' i'r 'Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Menywod'. Dywedodd JR fod Aelodau'r Cynulliad yn awyddus i ehangu'r cylch gwaith i osgoi cael gormod o grwpiau trawsbleidiol a bod y sefyllfa ehangach yn bwysig.

## 4. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM AMSEROEDD AROS AR GYFER ERTHYLIADAU

Cafodd canlyniadau'r ymarfer 'cwsmer cudd' eu cyflwyno. Roedd yr amseroedd aros wedi gostwng ym mhob bwrdd iechyd lleol ym mis Mehefin o'r niferoedd a gofnodwyd ym mis Ionawr 2019.

Mae canllawiau RCOG yn argymell amser aros o 5 diwrnod gwaith fan bellaf cyn ymgynghoriad ac yna 5 diwrnod gwaith cyn cael triniaeth. Cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd yr amseroedd aros presennol (o gofio'r duedd tuag at driniaeth feddygol gynnar ar yr un diwrnod) yn uwch na'r uchafswm ar gyfer amser aros ai peidio.

| Bwrdd Iechyd Lleol | *Cwsmer Cudd (Ionawr 2019)* | *Cwsmer Cudd (Mehefin 2019)* |
|---|---|---|
| PABM | 17 diwrnod | 7 diwrnod |
| BIPAB | 18 diwrnod | 12 diwrnod |
| Betsi Cadwaladr | 16 diwrnod | 13 diwrnod |
| Caerdydd a'r Fro | 17 diwrnod | 8 diwrnod |
| Cwm Taf | 14 - 21 diwrnod | 8 diwrnod |
| Hywel Dda | 21 diwrnod (cynghorir i gysylltu â PABM) | 14 diwrnod |
| Powys | 9 - 10 diwrnod | 5 diwrnod |

## 5. STRATEGAETH AR GYFER GWELLA IECHYD RHYWIOL

Rhoddodd Zoe Couzens gyflwyniad i Strategaeth Iechyd Rhywiol Cymru. Dechreuodd yr adroddiad yn 2016 ac roedd yn cynnwys iechyd rhywiol a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, atal cenhedlu, erthyliad a beichiogrwydd heb ei gynllunio.

Nododd gynnydd mawr mewn heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, gyda chynnydd o 44 y cant mewn siffilis (gan gynnwys nifer o achosion o siffilis cynenedigol), cynnydd o 32 y cant mewn gonorrhoea a chynnydd o 20 y cant mewn achosion cyntaf o herpes.

Rhoddwyd cynllun peilot o brofion ar-lein ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ar waith yn Hywel Dda.

Roedd cynllun peilot i gynnwys fferylliaeth yn y gwaith o ddarparu ystod ehangach o ddulliau atal cenhedlu ar fin dod i ben yng Nghaerdydd - lle'r oedd 5 fferyllydd wedi bod yn darparu'r bilsen, y bilsen fach, clytiau a modrwyau fagina fel rhagnodwyr annibynnol i archwilio effaith cynnig dulliau atal cenhedlu yn agosach at lefel y gymuned. Roedd y cynllun peilot hwn yn dod i ben ddiwedd mis Mehefin 2019.

Cafwyd trafodaeth ar fydwragedd yn cynnig dulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor i famau ar ôl iddynt roi genediaeth - gan wella mynediad mamau newydd at ddulliau atal cenhedlu effeithiol.

Atebodd Zoe gwestiynau ar waith rhyw; ar y rhaglen Reflect, a oedd yn gweithio gyda rhieni yr oedd eu plant yn derbyn gofal; ar gynnwys y menopos yn y fanyleb ar gyfer gwasanaethau iechyd rhywiol; ac ar grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau diwylliannol lle'r oedd cael mynediad at ofal iechyd rhywiol yn gallu bod yn anoddach.

## 6. CYFARFODYDD A FFOCWS YN Y DYFODOL

Trafododd y grŵp bynciau posibl ar gyfer y cyfarfod nesaf a chyfarfodydd yn ystod 2020.

**Cytunwyd** y byddai cyfarfod mis Tachwedd yn canolbwyntio ar wasanaethau erthylu yng ngoleuni'r ymateb i llythyr y grŵp at y Gweinidog Iechyd a'r canllawiau NICE, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ddiwedd mis Medi.

**Cytunwyd** y dylai cyfarfod yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddarpariaeth ynghylch endometriosis yng Nghymru ac y dylid gwahodd Richard Penketh ac Elizabeth Bruen i roi cyflwyniadau.

Roedd pynciau trafod arfaethedig eraill yn canolbwyntio ar hygyrchedd dulliau atal cenhedlu, gan gynnwys atal cenhedlu ar ôl rhoi genedigaeth.

**Cytunwyd** y byddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn cynnwys eitem sefydlog i adolygu'r saith mater a godwyd yn adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Erthylu, sef:

1. Gwybodaeth gywir a chyfredol
2. Argaeledd hunan-atgyfeirio
3. Amseroedd aros
4. Hygyrchedd gwasanaethau
5. Dau lofnod
6. Gweithio trawsffiniol
7. Lleoliadau meddygol cymhleth

**Y cyfarfod nesaf: 12:00 i 13:30, dydd Mercher 6 Tachwedd 2019**